

Cwricwlwm Cymru

Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

Ffurflen ymateb

i'r

Eich enw: **Sue Williams**

ymgyngoriad

Sefydliad (os yn berthnasol): **Cyfoeth Naturiol Cymru**

e-bost/rhif ffôn: **0300 068 0109**

sue.williams@naturalresourceswales.gov.uk

Eich cyfeiriad:

Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 2NL

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **13 Mehefin 2014** i:

Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu ei llenwi'n electronig a'i hanfon i:

e-bost: CurriculumforWales@wales.gsi.gov.uk

Ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar y 1af o Ebrill 2013 gan gyfuno staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC), Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Dyma'r corff cyhoeddus mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae ganddo tua 2,000 o aelodau o staff, cyllideb weithredu o £17 miliwn ac mae'n rheoli 7% o dir Cymru.

Nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw:

"... chwarae rhan ganolog yn gwireddu datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu dod â rheolaeth dros ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd ynghyd mewn ffordd gytbwys ac integredig, er mwyn gwireddu buddiannau i'r bobl, yr amgylchedd a'r economi"

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn ac yn edrych ymlaen at gyfrannu ymhellach at yr adolygiad o'r cwricwlwm.

Ein nod yw tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, yr angen i sefydlu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf yn y cwricwlwm a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ym mhob cyfnod allweddol.

Cwestiynau sy'n berthnasol i bob cynnig

Sgiliau

Cwestiwn 1 – Un ffordd o gyflwyno'r datganiadau disgwyliad ychwanegol gan y Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio yw eu hymgorffori'n uniongyrchol gyda'r datganiadau Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol. Mae hyn wedi ei wneud ar gyfer Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a'r rhaglen astudio mathemateg.

Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 2 – Ffordd arall o gyflwyno yw gosod y sgiliau flwyddyn i flwyddyn ar gyfer Saesneg a Cymraeg (iaith gyntaf) mewn adran ar wahân i ddilyn y rhan Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol.

Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Ystod

Cwestiwn 3 – Mae rhanddeiliaid wedi dweud pe byddai'r adran Ystod o Orchmynion y cwricwlwm cenedlaethol presennol yn cael ei hollti i ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn, y gallai hyn arwain at gulhau'r cwricwlwm a mwy o ragnodi.

Y bwriad yw y bydd y datganiadau Ystod presennol yn cael eu hailenwi'n 'Ystod o brofiadau' er mwyn disgrifio'r ystod o gynnwys a chyd-destunau y dylai dysgwyr gael profiad ohonynt. Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	x	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	----------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru roi mwy o bwys ar sicrhau bod y **profiadau** hyn yn cynnwys dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth **ym mhob** cyfnod allweddol a chyd-destun gan ymdrin â phwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy - gall pob un ohonynt gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n ei chael hi'n anodd mewn sefyllfa ystafell ddosbarth draddodiadol yn perfformio'n well mewn amgylchedd awyr agored lle gall sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd a rhifedd gael eu haddysgu'n effeithiol trwy dasgau dysgu cyfoethog a phroblemau bywyd go iawn.

Gall llawer o elfennau'r cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang cyfredol helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd hefyd gan ddefnyddio cyd-destun a phrofiadau bywyd go iawn.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o gefnogi'r maes gwaith hwn, sydd hefyd yn cysylltu â syniadau'r Llywodraeth a fynegwyd yn natblygiad Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd.

Dilyniant

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno bod dilyniant clir rhwng pob grŵp blwyddyn a rhwng pob cyfnod allweddol ar gyfer y Meysydd Dysgu a'r Rhaglenni Astudio? Os nad ydych, tybed a allwch awgrymu dewisiadau eraill addas.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno bod y disgwyliadau ar gyfer y disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu cyflwyno'n gywir? Os nad ydych, esboniwch pam ac awgrymu dewisiadau eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno bod y datganiadau ar gyfer 'Ystod o brofiadau' yn cael eu cyflwyno a'u geirio'n gywir? Os nad ydych, esboniwch pam ac awgrymu dewisiadau eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau presennol ond hoffem weld dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn cael ei amlygu yn yr "Ystod o Brofiadau" ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Canfu adolygiad gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg a Kings College Llundain dystiolaeth sylweddol fod gwaith maes a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ar yr amod ei fod wedi'i greu'n briodol, ei gynllunio'n ddigonol, ei addysgu'n dda gyda gwaith dilynol effeithiol, nid yn unig yn gwella gwybodaeth y myfyrwyr ond hefyd yn dysgu sgiliau sy'n ychwanegu gwerth at eu profiadau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno y rhoddir pwyslais ar y sgiliau cywir? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw rai ar goll?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Mae gan ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a dysgu sy'n seiliedig ar yr

amgylchedd rôl bwysig o ran cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i Gymru ddatblygu ei dull o reoli adnoddau naturiol. Gall cynnwys y sgiliau hyn helpu i gefnogi defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru yn y dyfodol a pharatoi pobl ifanc ar gyfer swyddi yn yr economi werdd sy'n datblygu.

Cwestiwn 8 – A ydych yn cytuno bod yr iaith a ddefnyddir yn y Meysydd Dysgu /Rhaglenni Astudio yn ddigon manwl? Os nad ydych, rhowch enghreifftiau penodol o'r newidiadau sydd eu hangen.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 9 – Pa gymorth/hyfforddiant ychwanegol fydd ei angen ar ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i weithredu'r Rhaglenni Astudio newydd ac i ddatblygu sgiliau ddwy-lythrennedd cryf? Eglurwch a rhowch amcangyfrif o hyn.

Fel y soniwyd yn ein hymateb i Ymgynghoriad Cam 1, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo bod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol, athrawon dan hyfforddiant ac arolygwyr ESTYN yn gwbl hanfodol er mwyn i unrhyw newid fod yn llwyddiannus. Cyfrannodd Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy Dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu y Comisiwn Coedwigaeth) at y gwaith o ysgrifennu, cyflwyno a hyfforddi ar gyfer Modiwl 6 o Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen - Dysgu yn yr Awyr Agored a byddem yn falch o gefnogi unrhyw hyfforddiant ym maes rheoli adnoddau naturiol a dysgu yn yr awyr agored yn y dyfodol sy'n ofynnol mewn unrhyw gyfnod allweddol sy'n pwysleisio addysgu a dysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn yr awyr agored. Mae ugain a mwy o gyrsiau hyfforddi dwyieithog wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf gydag athrawon a staff cymorth yn gwerthfawrogi'r cyfle i arsylwi ar ddosbarth yn dysgu yn yr awyr agored ac yna'n cael amser i drafod a chreu syniadau newydd ac arloesol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Teimlwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm yn cael eu hadlewyrchu yng nghyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Unwaith eto, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r maes Addysg Uwch yn y gwaith datblygu angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni hyn.

Cwestiynau sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen

Athroniaeth y Cyfnod Sylfaen

Cwestiwn 10 – Y bwriad yw y bydd cyfres gyffredinol o ddatganiadau ar addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar ddechrau pob Maes Dysgu i dynnu sylw at bwysigrwydd athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn? Os nad ydych, esboniwch pam ac awgrymwch ddewisiadau eraill.

Cytuno	x	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	----------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o weld y datganiad "Mae ethos y Cyfnod Sylfaen yn fyw ac yn iach" ar dudalen 11 y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod yr elfen "chwarae rhydd" a oedd yn cael ei gwerthfawrogi gymaint yn ystod cyfnod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac yn cael ei darparu yn yr awyr agored yn aml yn cael ei diddymu o adrannau Cyfnod Sylfaen wrth i athrawon ei chael hi'n anodd cyflwyno elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru gynyddu pwysigrwydd chwarae rhydd mewn amgylchedd naturiol er mwyn hwyluso cysylltiad gyda natur yn ifanc, sydd wedi amlygu manteision i bobl fel oedolion, ac yn gysylltiedig â mwy o weithgarwch corfforol, iechyd a lles a datblygu diddordeb yn y byd naturiol a'r gwaith o reoli ei adnoddau naturiol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hoffi gweld datganiad cyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae rhydd a mynediad i'r amgylchedd naturiol.

Meithrin

Cwestiwn 11 – Y bwriad yw bod y sgiliau ar gyfer Meithrin, er nad yn gysylltiedig â'r Meysydd Dysgu, yn dod yn Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd anstatudol ar gyfer y grŵp oedran hwn. A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Goblygiadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Cwestiwn 12 – Er mwyn sicrhau y cynhelir dilyniant priodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, (ar ôl ymgorffori'r sgiliau ar gyfer plant ifanc iawn - Meithrin - i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd), bydd mân

addasiadau yn cael eu gwneud i ddatganiadau camau C a B yn elfen Rhifedd y Fframwaith. Ydych chi'n cytuno? Os nad ydych, awgrymwch ddewis amgen addas.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 13 – Yn y Meysydd Dysgu rydym yn dilyn dulliau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd drwy ddefnyddio datganiadau disgwyliad o flwyddyn i flwyddyn ar draws y Cyfnod Sylfaen. Ai dyma'r dull cywir? Os nad yw, awgrymwch ddewis amgen addas.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	x
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	----------

Sylwadau ategol

Dim sylw

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i gynorthwyo gyda'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm ac yn arbennig i helpu i ddatblygu dysgu ar gyfer agweddau ar gynaliadwyedd a rheoli adnoddau naturiol y cwricwlwm a sefydlu'r amgylchedd a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau y defnyddir ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Roeddem yn siomedig o weld nad oedd sôn am unrhyw un o'r uchod yn yr ymatebion cryno i ymgynghoriad Cam 1 er gwaethaf nifer o ymatebion gan y sector amgylcheddol yn amlygu pwyntiau tebyg.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

